**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**

**30 GORFFENNAF 2024**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 30 Gorffennaf 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd David Evans (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Glyn Banks, David Coggins-Cogan, Chris Dolphin, Richard Lloyd, David Richardson Dan Rose a Roy Wakelam |
| **DIRPRWYON:** | Y Cynghorwyr: Teresa Carberry (ar ran Ray Hughes), Simon Jones (ar ran Vicky Perfect), Allan Marshall (ar ran Mike Peers) a Ted Palmer (ar ran Mel Buckley) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Gillian Brockley, Helen Brown, Bill Crease, Carol Ellis, Andy Hughes, Alasdair Ibbotson, Richard Jones, Carolyn Preece, Dale Selvester, Sam Swash ac Ant Turton (yn bresennol fel llofnodwyr i Alw i Mewn Hysbysiad 1 a 2)<br><br>Y Cynghorwyr: Rob Davies, Ron Davies, Mared Eastwood, Chrissy Gee, David Healey, Ian Hodge, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Christine Jones, Gina Maddison, Roz Mansell, Ryan McKeown, Billy Mullin, Kevin Rush, Jason Shallcross, Linda Thew, Linda Thomas ac Antony Wren (wedi mynychu fel arsylwr) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorwyr Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor); Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Stryd a Chludiant); Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) a Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

**18. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**19. YSTYRIED MATER A ATGYFEIRIWYD AT A PWYLLGOR YN UNOL A'R TREFNIADAU GALW I MEWN (Dolen i'r Recordiad)**

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cynghori fod y Cabinet wedi ystyried adroddiad ar 'Trosglwyddo'r Cyngor i Fodel Casglu Gwastraff Gweddilliol Cyfyngedig' yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2024. Y penderfyniad (Cofnod o Benderfyniad 4236) wedi cael ei alw i mewn ar ddau achlysur gwahanol ac wedi'u dangos yn Hysbysiad Galw i Mewn 1 a Hysbysiad Galw i Mewn 2 ar y Rhaglen.

Copïau o adroddiad y Cabinet, Cofnod o'r Penderfyniad a Chymeradwyo Galw i Mewn 1 a 2 wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r drefn ar gyfer galw Penderfyniad Cabinet i mewn fel y manylwyd yn y ddogfen ategol a oedd wedi'i chynnwys yn y rhaglen.

Gwahoddodd y Cadeirydd y llofnodwyr i gyflwyno'r rhesymau dros y galw i mewn i'r Pwyllgor.

## 20. TROSGLWYDDO'R CYNGOR I FODEL CASGLU GWASTRAFF GWEDDILLIOL CYFYNGEDIG (Dolen i'r Recordiad)

Sylwadau gan y rhai a lofnododd y cais galw i mewn

Y Cynghorwyr: Alastair Ibbotson, Bill Crease, Marion Bateman, Carol Ellis, Helen Brown a Richard Jones yn amlinellu'r rhesymau ar gyfer y Galw i Mewn, gan egluro'r rhesymau wedi'u hamlinellu yn y Rhaglen.

Ymatebion gan y Penderfynwyr

Darparodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) a Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio gyflwyniad manwl yn ymateb i'r pryderon wedi'u mynegi gan y llofnodwyr Galw i Mewn.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor a'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Stryd a Chludiant i'r sylwadau a gafodd eu gwneud gan y llofnodwyr Galw i Mewn.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau i'r penderfynwyr a'r llofnodwyr Galw i Mewn.

Gwahoddodd y Cadeirydd y rhai a alwodd y penderfyniad i mewn i grynhoi.

Cafwyd crynodeb o'r penderfyniad gan y Cynghorwyr Alasdair Ibbotson a Richard Jones ar ran y llofnodwyr Galw i Mewn.

Cafwyd crynodeb o'r rhesymau dros y cynigion gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) gyda'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Stryd a Chludiant hefyd yn crynhoi ei gefnogaeth i benderfyniad y Cabinet.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd atgoffa'r Aelodau o'r dewisiadau ar gyfer gwneud penderfyniad fel y manylwyd yn eitem 3 ar y rhaglen.

Cynigodd y Cynghorydd Richard Lloyd Opsiwn 2 gyda'r Cynghorydd Simon Jones yn eilio'r cynnig.

Cynigodd y Cynghorydd Roy Wakelam Opsiwn 4, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd David Coggins-Cogan. Cafwyd eglurhad na fyddai'n bosib cyflawni'r ail gynnig cyn y bleidlais ar y cynnig cyntaf.

Cafwyd pleidlais a chefnogwyd Opsiwn 2.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Ar ôl ystyried y penderfyniad nid oedd y Pwyllgor 'bellach yn bryderus' ar ôl derbyn yr eglurhad, ond eto ddim o blaid dynodi ei fod yn 'fodlon gyda'r eglurhad' ac felly roedd y Pwyllgor yn derbyn ond nid yn cymeradwyo'r penderfyniad.

**21. <u>AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL</u>**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 5.36 pm)

.................................................

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home